



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2014 Rhif 566 (Cy. 67)**

**2014 No. 566 (W. 67)**

**Y GWASANAETH IECHYD  
GWLADOL, CYMRU**

**THE NATIONAL HEALTH  
SERVICE, WALES**

**Rheoliadau'r Pwyllgor  
Gwasanaethau Ambiwllans Brys  
(Cymru) 2014**

**The Emergency Ambulance  
Services Committee (Wales)  
Regulations 2014**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfansoddiad ac aelodaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys ("y cyd-bwyllgor") gan gynnwys ei weithdrefnau a'i drefniadau gweinyddol. Mae Cyfarwyddydau'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys (Cymru) 2014 a wnaed ar 10 Mawrth 2014 yn darparu y bydd y saith Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru yn gweithio ar y cyd i arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio a sicrhau gwasanaethau ambiwlans brys ac at ddiben arfer y swyddogaethau hynny ar y cyd, bydd y Byrddau Iechyd Lleol yn sefydlu'r cyd-bwyllgor.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer—

- (a) cyfansoddiad ac aelodaeth y cyd-bwyllgor (rheoliad 3);
- (b) penodi cadeirydd ac is-gadeirydd i'r cyd-bwyllgor (rheoliad 4);
- (c) y gofynion cymhwysra i aelodau o'r cyd-bwyllgor (rheoliad 5 ac Atodlen 2); a
- (d) deiliadaeth swydd, terfynu penodiad ac atal aelodau o'r cyd-bwyllgor dros dro (rheoliadau 6 i 9).

Mae Rhan 3 yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â chyfarfodydd a thrafodion y cyd-bwyllgor gan gynnwys pwerau'r is-gadeirydd (rheoliadau 10 ac 11).

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations make provision for the constitution and membership of the Emergency Ambulance Services Committee ("the joint committee") including its procedures and administrative arrangements. The Emergency Ambulance Services Committee (Wales) Directions 2014 which were made on 10 March 2014 provide that the seven Local Health Boards in Wales will work jointly to exercise functions relating to the planning and securing of emergency ambulance services and for the purpose of jointly exercising those functions, Local Health Boards will establish the joint committee.

Part 2 of these Regulations makes provision for —

- (a) the composition and membership of the joint committee (regulation 3);
- (b) the appointment of the chair and vice-chair to the joint committee (regulation 4);
- (c) eligibility requirements for members of the joint committee (regulation 5 and Schedule 2); and
- (d) tenure of office, termination of appointment and suspension of members of the joint committee (regulations 6 to 9).

Part 3 contains provisions in relation to the meetings and proceedings of the joint committee including the powers of the vice-chair (regulations 10 and 11).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeilio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

**2014 Rhif 566 (Cy. 67)**

**Y GWASANAETH IECHYD  
GWLADOL, CYMRU**

**Rheoliadau'r Pwyllgor  
Gwasanaethau Ambiwylans Brys  
(Cymru) 2014**

*Gwnaed* 10 Mawrth 2014

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 11 Mawrth 2014

*Yn dod i rym* 1 Ebrill 2014

**2014 No. 566 (W. 67)**

**THE NATIONAL HEALTH  
SERVICE, WALES**

**The Emergency Ambulance  
Services Committee (Wales)  
Regulations 2014**

*Made* 10 March 2014

*Laid before the National Assembly for Wales*  
11 March 2014

*Coming into force* 1 April 2014

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 11, 12(3), (13)(2)(c) a 4(c) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1) a pharagraff 4 o Atodlen 2 iddi yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on them by sections 11, 12(3), 13(2)(c) and (4)(c) and 203(9) and (10) of and paragraph 4 of Schedule 2 to the National Health Service (Wales) Act 2006(1) make the following Regulations:

**RHAN 1**

**Cyflwyniad**

**Enwi a chychwyn**

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys (Cymru) 2014 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2014.

**Dehongli**

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “aelod” (“*member*”) yw aelod o'r cyd-bwyllgor fel y nodir yn rheoliad 3;

ystyr “aelod cyswllt” (“*associate member*”) yw person sy'n dal unrhyw swydd a nodir yn unol â rheoliad 3(3);

**PART 1**

**Introduction**

**Title and commencement**

1. The title of these Regulations is the Emergency Ambulance Services Committee (Wales) Regulations 2014 and they come into force on 1 April 2014.

**Interpretation**

2. In these Regulations—

“the Act” (“*y Ddeddf*”) means the National Health Service (Wales) Act 2006;

“associate member” (“*aelod cyswllt*”) means a person who holds any office set out in accordance with regulation 3(3);

ystyr “Bwrdd Iechyd Lleol” (“*Local Health Board*”) yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd yn unol ag adran 11(2) o’r Ddeddf(1);

ystyr “Bwrdd Iechyd Lleol cynhaliol” (“*host Local Health Board*”) yw Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf;

ystyr “corff gwasanaeth iechyd” (“*health service body*”) yw Bwrdd Comisiynu’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, y Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol, grŵp comisiynu clinigol, Awdurdod Iechyd Arbennig, Awdurdod Iechyd Strategol, Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG, Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG neu Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol;

ystyr “y cyd-bwyllgor” (“*the joint committee*”) yw’r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys a sefydlwyd yn unol â Chyfarwyddydau’r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (Cymru) 2014 a wnaed ar 10 Mawrth 2014;

ystyr “cynrychiolydd enwebedig” (“*nominated representative*”) yw swyddog-aelod a enwebwyd gan brif swyddog pob un o’r Byrddau Iechyd Lleol. Ystyr swyddog-aelod yn y cyd-destun hwn yw unrhyw swydd a nodir yn rheoliad 3(2) o Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009(2);

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “prif swyddogion” (“*chief officers*”) yw prif swyddog pob Bwrdd Iechyd Lleol; ac

ystyr “swyddog-aelod” (“*officer member*”) yw aelod o’r cyd-bwyllgor sy’n dal unrhyw swydd a nodir yn rheoliad 3(2).

“chief officers” (“*prif swyddogion*”) means the chief officer of each Local Health Board;

“host Local Health Board” (“*Bwrdd Iechyd Lleol cynhaliol*”) means Cwm Taf University Local Health Board;

“health service body” (“*corff gwasanaeth iechyd*”) means the National Health Service Commissioning Board, the National Institute for Health and Care Excellence, the Health and Social Care Information Centre, a clinical commissioning group, a Special Health Authority, Strategic Health Authority, Local Health Board, NHS Trust, NHS Foundation Trust or Primary Care Trust;

“the joint committee” (“*y cyd-bwyllgor*”) means the Emergency Ambulance Services Committee established pursuant to the Emergency Ambulance Services Committee (Wales) Directions 2014 made on 10 March 2014.

“Local Health Board” (“*Bwrdd Iechyd Lleol*”) means a Local Health Board established in accordance with section 11(2) of the Act(1);

“member” (“*aelod*”) means a member of the joint committee as set out in regulation 3;

“nominated representative” (“*cynrychiolydd enwebedig*”) means an officer member nominated by the chief officer of each of the Local Health Boards. Officer member in this context means any office set out in regulation 3(2) of the Local Health Boards (Constitution, Membership and Procedures) (Wales) Regulations 2009(2); and

“officer member” (“*swyddog-aelod*”) means a member of the joint committee who holds any office set out in regulation 3(2).

---

(1) Sefydlwyd Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys o dan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydli) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/148 (Cy.18)). Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a’r Fro, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda o dan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydli a Diddymu) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/778 (Cy.66)) fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2013/2918 (Cy.286).

(2) O.S. 2009/779 (Cy.67).

---

(1) Powys Teaching Local Health Board was established under the Local Health Boards (Establishment) (Wales) Order 2003 (S.I. 2003/148 (W.18)). Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, Aneurin Bevan University Local Health Board, Betsi Cadwaladr University Local Health Board, Cardiff and Vale University Local Health Board, Cwm Taf University Local Health Board and Hywel Dda University Local Health Board were established under the Local Health Boards (Establishment and Dissolution) (Wales) Order 2009 (S.I. 2009/778 (W.66)) as amended by S.I. 2013/2918 (W. 286)).

(2) S.I. 2009/779 (W.67).

## RHAN 2

### Aelodaeth o'r cyd-bwyllgor

#### Aelodaeth o'r cyd-bwyllgor

3.—(1) Mae aelodau o'r cyd-bwyllgor yn cynnwys—

- (a) y prif swyddogion neu gynrychiolwyr enwebedig;
- (b) cadeirydd; ac
- (c) y swyddog-aelod a gyflogir gan y Bwrdd Iechyd Lleol cynhaliol.

(2) Y swyddog-aelod at ddibenion rheoliad 3(1)(c) yw'r person a gyflogir i ymgymryd â swyddogaethau'r Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans yn unol â chyfarwyddyd 3 o Gyfarwyddydau'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (Cymru) 2014(1).

(3) Yn ychwanegol, bydd tri aelod cyswllt, sef prif weithredwyr Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

(4) Pan fo prif swyddog yn bwriadu enwebu cynrychiolydd at ddibenion rheoliad 3(1)(a), rhaid i'r enwebiad fod yn ysgrifenedig ac wedi ei gyfeirio at gadeirydd y cyd-bwyllgor, a rhaid iddo bennu pa un a yw'r enwebiad am gyfnod penodol ai peidio.

#### Penodi'r cadeirydd a'r is-gadeirydd

4.—(1) Penodir y cadeirydd gan Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i'r cyd-bwyllgor benodi is-gadeirydd i'r cyd-bwyllgor o blith y prif swyddogion neu gynrychiolwyr enwebedig.

(3) Bydd y penodiadau a wneir yn unol â pharagraff (1) yn cael eu gwneud yn unol â'r darpariaethau yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

(4) Pan fo'r cyd-bwyllgor yn penodi'r is-gadeirydd yn unol â pharagraff (2) bydd y penodiad yn ddarostyngedig i reolau sefydlog sy'n ymwneud â'r cyd-bwyllgor.

(5) Pan fo cadeirydd yn cael ei benodi yn unol â pharagraff (1), rhaid rhoi sylw i'r angen i annog amrywiaeth yn yr ystod o bersonau y caniateir eu penodi.

(1) 2014 (Rhif 8).

## PART 2

### Membership of the joint committee

#### Membership of the joint committee

3.—(1) The members of the joint committee consist of—

- (a) the chief officers or nominated representatives;
- (b) a chair; and
- (c) the officer member employed by the host Local Health Board.

(2) The officer member for the purposes of regulation 3(1)(c) is the person employed to undertake the functions of the Chief Ambulance Services Commissioner in accordance with direction 3 of the Emergency Ambulance Services Committee (Wales) Directions 2014(1).

(3) In addition there will be three associate members who will be the chief executives of Velindre National Health Service Trust, the Welsh Ambulance Services National Health Service Trust and the Public Health Wales National Health Service Trust.

(4) Where a chief officer intends to nominate a representative for the purposes of regulation 3(1)(a), the nomination must be in writing addressed to the chair of the joint committee, and must specify whether the nomination is for a specific length of time.

#### Appointment of the chair and vice-chair

4.—(1) The chair is appointed by the Welsh Ministers.

(2) The joint committee must appoint a vice chair of the joint committee from amongst the chief officers or nominated representatives.

(3) Appointments made in accordance with paragraph (1) will be in accordance with the provisions in Schedule 1 to these Regulations.

(4) Where the joint committee appoints the vice-chair in accordance with paragraph (2) the appointment will be subject to standing orders relating to the joint committee.

(5) Where a chair is appointed in accordance with paragraph (1) regard must be had to the need to encourage diversity in the range of persons who may be appointed.

(1) 2014 (No. 8).

## **Y gofynion cymhwysra i aelodau'r cyd-bwyllgor**

5.—(1) Cyn y caniateir i unrhyw berson gael ei benodi'n gadeirydd y cyd-bwyllgor, rhaid iddo fodloni'r gofynion perthnasol o ran cymhwysra yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn a rhaid iddo barhau i fodloni'r gofynion perthnasol tra bo'n dal y swydd honno.

(2) Ni chaiff swyddog-aelod ond dal swydd ar y cyd-bwyllgor ar yr amod ei fod yn parhau i arfer swyddogaethau'r Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwylans.

(3) Ni fydd unrhyw berson a benodir yn unol â rheoliad 4(2) i fod yn is-gadeirydd neu sy'n aelod cyswllt neu'n brif swyddog y cyd-bwyllgor ond yn dal swydd ar y cyd-bwyllgor ar yr amod ei fod yn parhau i ddal swydd, fel y bo'n briodol, fel prif weithredwr Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru neu brif swyddog Bwrdd Iechyd Lleol.

(4) Ni chaiff cynrychiolydd enwebedig prif swyddog ond dal swydd ar y cyd-bwyllgor ar yr amod ei fod yn parhau i ddal ei swydd fel swyddog-aelod o Fwrdd Iechyd Lleol y prif swyddog, fel y nodir yn rheoliad 3(2) o Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009.

## **Deiliadaeth swydd cadeirydd**

6.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i unrhyw berson a benodir yn gadeirydd y cyd-bwyllgor.

(2) Yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn, mae cadeirydd yn dal ac yn gadael y swydd yn unol â thelerau penodiad y person hwnnw.

(3) Caniateir i gadeirydd gael ei benodi am gyfnod nad yw'n hwy na phedair blynedd.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5) caniateir i gadeirydd, pan fydd ei gyfnod yn ei swydd wedi dod i ben, gael ei ailbenodi yn unol â rheoliad 4(1).

(5) Ni chaiff person ddal swydd fel cadeirydd y cyd-bwyllgor am gyfnod cyfan o fwy nag wyth mlynedd.

## **Deiliadaeth swydd is-gadeirydd**

7.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i unrhyw berson a benodir yn is-gadeirydd y cyd-bwyllgor.

(2) Caniateir i is-gadeirydd gael ei benodi am gyfnod nad yw'n hwy na dwy flynedd.

(3) Yn ddarostyngedig i reoliad 5(3) a pharagraff (4) caniateir i is-gadeirydd, pan fydd ei gyfnod yn ei swydd wedi dod i ben, gael ei ailbenodi yn unol â rheoliad 4(2).

## **Eligibility requirements for members of the joint committee**

5.—(1) Any person must fulfil the relevant requirements for eligibility in Schedule 2 to these Regulations before that person may be appointed as a chair of the joint committee and must continue to fulfil the relevant requirements while that person holds office.

(2) The officer member may only hold office on the joint committee provided he or she continues to exercise the functions of the Chief Ambulance Services Commissioner.

(3) Any person appointed pursuant to regulation 4(2) to be a vice-chair or who is an associate member or chief officer of the joint committee will only hold office on the joint committee provided they continue to hold office as appropriate as a chief executive of a NHS Trust in Wales or a chief officer of a Local Health Board.

(4) A nominated representative of a chief officer may only hold office on the joint committee provided he or she continues to hold office as an officer member, as set out in regulation 3(2) of the Local Health Board (Constitution, Membership and Procedures) (Wales) Regulations 2009, of the chief officer's Local Health Board.

## **Tenure of office of chair**

6.—(1) This regulation applies to any person who is appointed as chair of the joint committee.

(2) Subject to these Regulations, a chair holds and vacates office in accordance with the terms of that person's appointment.

(3) A chair may be appointed for a period of no longer than four years.

(4) Subject to paragraph (5) a chair may on the expiration of his or her term of office be re-appointed in accordance with regulation 4(1).

(5) A person may not hold office as a chair for the joint committee for a total period of more than eight years.

## **Tenure of office of vice-chair**

7.—(1) This regulation applies to any person who is appointed as vice-chair of the joint committee.

(2) A vice-chair may be appointed for a period of no longer than two years.

(3) Subject to regulation 5(3) and paragraph (4) a vice-chair may on the expiration of his or her term of office on the joint committee be re-appointed in accordance with regulation 4(2).

(4) Ni chaiff person ddal swydd fel is-gadeirydd y cyd-bwyllgor am gyfnod cyfan o fwy na phedair blynedd.

(5) Mae'r cyfeiriadau at ddeiliadaeth swydd yr is-gadeirydd yn gyfeiriadau at ei benodiad yn is-gadeirydd ac nid at ei ddeiliadaeth swydd fel aelod o'r cyd-bwyllgor.

### Terfynu penodiad cadeirydd

8.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru symud cadeirydd o'i swydd yn ddi-oed os byddant yn penderfynu—

- (a) nad yw er budd y gwasanaeth iechyd yng Nghymru; neu
- (b) nad yw'n ffafriol i reoli da ar y cyd-bwyllgor,

i'r cadeirydd hwnnw barhau i ddal ei swydd.

(2) Os daw i sylw Gweinidogion Cymru fod cadeirydd a benodwyd wedi dod yn anghymwys o dan Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, caiff Gweinidogion Cymru symud y cadeirydd hwnnw o'i swydd.

(3) Rhaid i gadeirydd a benodwyd hysbysu'r cyd-bwyllgor a Gweinidogion Cymru yn ddi-oed os yw'r cadeirydd hwnnw yn dod yn anghymwys o dan Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(4) Os yw cadeirydd a benodwyd wedi methu â bod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod y cyd-bwyllgor am gyfnod o chwe mis neu ragor, caiff Gweinidogion Cymru symud y cadeirydd hwnnw o'i swydd oni bai eu bod wedi eu bodloni —

- (a) bod achos rhesymol dros yr absenoldeb; a
- (b) y bydd y cadeirydd yn gallu bod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfodydd o fewn unrhyw gyfnod sy'n rhesymol ym marn Gweinidogion Cymru.

(5) Caiff cadeirydd ymddiswyddo o'i swydd ar unrhyw adeg drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i Weiniogion Cymru a phob Bwrdd Iechyd Lleol ond yn ddarostyngedig i delerau penodiad y cadeirydd hwnnw.

### Atal cadeirydd dros dro

9.—(1) Cyn gwneud penderfyniad i symud cadeirydd o'i swydd o dan reoliad 8, caiff Gweinidogion Cymru atal dros dro ddeiliadaeth swydd y cadeirydd hwnnw am unrhyw gyfnod sy'n rhesymol yn eu barn hwy.

(2) Pan fo cadeirydd wedi ei atal dros dro yn unol â paragraff (1), bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r cadeirydd hwnnw a phob Bwrdd Iechyd Lleol yn ddi-oed ac yn ysgrifenedig, gan ddatgan y rhesymau dros ei atal dros dro.

(4) A person may not hold office as a vice-chair of the joint committee for a total period of more than four years.

(5) References to the tenure of office of the vice chair are to his or her appointment as a vice chair and not to his or her tenure of office as a member of the joint committee.

### Termination of appointment of chair

8.—(1) The Welsh Ministers may immediately remove a chair from office if they determine that —

- (a) it is not in the interests of the health service in Wales; or
- (b) it is not conducive to the good management of the joint committee,

for that chair to continue to hold office.

(2) If it comes to the notice of the Welsh Ministers that a chair appointed has become ineligible under Schedule 2 to these Regulations, the Welsh Ministers may remove that chair from office.

(3) A chair appointed must immediately notify the joint committee and the Welsh Ministers if that chair becomes ineligible under Schedule 2 to these Regulations.

(4) If a chair appointed has failed to attend any meeting of the joint committee for a period of six months or more, the Welsh Ministers may remove that chair from office unless they are satisfied that —

- (a) the absence was due to a reasonable cause; and
- (b) the chair will be able to attend such meetings within such period as the Welsh Ministers consider reasonable.

(5) A chair may at any time resign his or her office by notice in writing to the Welsh Ministers and each Local Health Board but subject to the terms of that chair's appointment.

### Suspension of chair

9.—(1) Before making a decision to remove a chair from office under regulation 8, the Welsh Ministers may suspend the tenure of office of that chair for such period as they consider reasonable.

(2) Where a chair is suspended in accordance with paragraph (1), the Welsh Ministers will immediately notify that chair and each Local Health Board in writing, stating the reasons for his or her suspension.

(3) Ni chaiff cadeirydd y mae ei benodiad wedi ei atal dros dro o dan baragraff (1) gyflawni swyddogaethau'r cadeirydd.

(3) A chair whose appointment is suspended under paragraph (1) may not perform the functions of chair.

## RHAN 3

### Cyfarfodydd a thrafodion y cyd-bwyllgor

#### Cyfarfodydd a thrafodion

**10.**—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol gytuno ar reolau sefydlog i reoleiddio cyfarfodydd a thrafodion y cyd-bwyllgor.

(2) Rhaid i gyfarfodydd a thrafodion y cyd-bwyllgor gael eu cynnal yn unol â'r rheolau sefydlog sy'n ymwneud â'r cyd-bwyllgor.

(3) Ni chaiff aelodau cyswllt bleidleisio mewn unrhyw gyfarfodydd neu drafodion y cyd-bwyllgor.

#### Pwerau'r is-gadeirydd

**11.** Pan fo cadeirydd y cyd-bwyllgor—

- (a) wedi marw;
- (b) wedi peidio â dal ei swydd; neu
- (c) yn analluog i gyflawni dyletswyddau'r cadeirydd oherwydd salwch, absenoldeb neu unrhyw achos arall,

bydd yr is-gadeirydd yn gweithredu fel cadeirydd hyd nes y caiff cadeirydd newydd ei benodi neu hyd nes bod y cadeirydd presennol yn ailafael yn nyletswyddau'r cadeirydd, yn ôl y digwydd.

## PART 3

### Meetings and proceedings of the joint committee

#### Meetings and proceedings

**10.**—(1) Each Local Health Board must agree standing orders for the regulation of the meetings and proceedings of the joint committee.

(2) The meetings and proceedings of the joint committee must be conducted in accordance with standing orders relating to the joint committee.

(3) Associate members may not vote in any meetings or proceedings of the joint committee.

#### Powers of vice-chair

**11.** Where the chair of the joint committee—

- (a) has died;
- (b) has ceased to hold office; or
- (c) is unable to perform the duties of chair owing to illness, absence or any other cause,

the vice-chair will act as chair until a new chair is appointed or the existing chair resumes the duties of chair, as the case may be.

*Mark Drakeford*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,  
un o Weinidogion Cymru.

10 Mawrth 2014

Minister for Health and Social Services, one of the  
Welsh Ministers.

10 March 2014



## ATODLEN 1

### Y GWEITHDREFNAU AR GYFER PENODI CADEIRYDD

Rheoliad 4(1) a 4(3)

1. Mae'r Atodlen hon yn gymwys i benodi cadeirydd y cyd-bwyllgor.

2. Bydd Gweinidogion Cymru yn sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer penodi'r cadeirydd a bod y trefniadau hynny yn ystyried—

- (a) yr egwyddorion a osodir o bryd i'w gilydd gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrrff Cyhoeddus;
- (b) ei bod yn ofynnol i'r penodiad fod yn agored a thryloyw;
- (c) ei bod yn ofynnol i'r penodiad gael ei wneud drwy gystadleuaeth deg ac agored; a
- (d) yr angen i sicrhau bod ymgeiswyr llwyddiannus yn bodloni'r gofynion cymhwystra perthnasol a nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

## ATODLEN 2

### Y GOFYNIION CYMHWYSTRA

Rheoliad 5(1)

Y gofynion cymhwystra i gadeirydd

#### Gofynion cyffredinol

1.—(1) Mae'r Atodlen hon yn gymwys mewn perthynas â chymhwystra i benodi cadeirydd y cyd-bwyllgor.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4), (5), (6) ac (8), nid yw person yn gymwys i gael ei benodi'n gadeirydd os yw—

- (a) yn ystod y pum mlynedd blaenorol wedi ei gollfarnu yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd ac wedi cael dedfryd o garchar (pa un a yw'n ddedfryd ohiriedig ai peidio) am gyfnod nad yw'n llai na thri mis heb yr opsiwn o ddirwy;
- (b) yn destun gorchymyn cyfyngu methdaliad neu orchymyn interim neu wedi gwneud compownd neu drefniant â chredydwy;

## SCHEDULE 1

### PROCEDURES FOR APPOINTMENT OF CHAIR

Regulation 4(1) and 4(3)

1. This Schedule applies to the appointment of a chair of the joint committee.

2. The Welsh Ministers will ensure that appropriate arrangements are in place for the appointment of the chair and that those arrangements take into account —

- (a) the principles from time to time laid down by the Commissioner for Public Appointments for Ministerial Appointments to Public Bodies;
- (b) the requirement that the appointment be open and transparent;
- (c) the requirement of fair and open competition in the appointment; and
- (d) the need to ensure that successful candidates meet the relevant eligibility requirements set out in Schedule 2 to these Regulations.

## SCHEDULE 2

### ELIGIBILITY REQUIREMENTS

Regulation 5(1)

Eligibility requirements for chair

#### General requirements

1.—(1) This Schedule applies in relation to the eligibility for appointment of the chair of the joint committee.

(2) Subject to paragraphs (4), (5), (6) and (8), a person is not eligible for appointment as a chair if that person—

- (a) has within the preceding five years been convicted in the United Kingdom, the Channel Islands or the Isle of Man of any offence and has received a sentence of imprisonment (whether suspended or not) for a period of not less than three months without the option of a fine;
- (b) is the subject of a bankruptcy restrictions order or an interim order or has made a composition or arrangement with creditors;

- (c) wedi ei ddiswyddo, ac eithrio am fod y swydd wedi ei dileu, o unrhyw gyflogaeth am dâl gyda chorff gwasanaeth iechyd;
- (d) ei aelodaeth fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr o gorff gwasanaeth iechyd, ac eithrio grŵp comisiynu clinigol, wedi ei therfynu am reswm ac eithrio am fod y swydd wedi ei dileu, ymddiswyddiad gwirfoddol, ad-drefnu'r corff gwasanaeth iechyd, neu am fod cyfnod y swydd y penodwyd y person amdano wedi dod i ben; neu
- (e) wedi ei symud o'i swydd fel cadeirydd neu aelod o gorff llywodraethu grŵp comisiynu clinigol.

(3) At ddibenion paragraff (2)(a), bernir mai'r dyddiad collfarnu yw'r dyddiad y mae'r cyfnod a ganiateir yn gyffredinol ar gyfer gwneud apêl neu gais mewn cysylltiad â'r gollfarn yn dod i ben neu, os gwneir apêl neu gais o'r fath, y dyddiad y penderfynir yn derfynol ar yr apêl neu'r cais, neu'r dyddiad y rhoddir y gorau i'r apêl neu'r cais, neu'r dyddiad y mae'r apêl yn methu am na chafodd ei dwyn yn ei blaen neu'r dyddiad y mae'r cais yn methu am na chafodd ei ddwyn yn ei flaen.

(4) At ddibenion paragraff (2)(c), nid yw person i'w drin fel un sydd wedi cael ei gyflogi am dâl a hynny ddim ond am ei fod wedi dal swydd aelod, aelod cyswllt neu gyfarwyddwr corff gwasanaeth iechyd ac eithrio grŵp comisiynu clinigol, neu fel un sydd wedi dal swydd cadeirydd neu aelod o gorff llywodraethu grŵp comisiynu clinigol.

(5) Pan fo person yn anghymwys oherwydd paragraff (2)(b)—

- (a) os diddymir y methdaliad ar y sail na ddylai'r person fod wedi cael ei ddyfarnu'n fethdalwr neu ar y sail bod dyledion y person wedi cael eu talu'n llawn, mae'r person hwnnw yn dod yn gymwys i gael ei benodi'n gadeirydd neu'n swyddog-aelod ar ddyddiad y diddymiad;
- (b) os caiff person ei ryddhau o fethdaliad, mae'r person hwnnw yn dod yn gymwys i gael ei benodi'n aelod ar ddyddiad y rhyddhau;
- (c) os telir dyledion y person yn llawn, ac yntau wedi gwneud compownd neu drefniant gyda'i gredydwyr, mae'r person hwnnw yn dod yn gymwys i gael ei benodi'n gadeirydd neu'n swyddog-aelod ar y dyddiad y talwyd y dyledion hynny'n llawn; a
- (d) ar ôl gwneud compownd neu drefniant gyda'i gredydwyr, mae'r person hwnnw yn dod yn gymwys i gael ei benodi'n gadeirydd neu'n swyddog-aelod pan ddaw pum mlynedd i ben o'r dyddiad y cyflawnwyd telerau gweithred y compownd neu'r trefniant.

- (c) has been dismissed, other than by reason of redundancy, from any paid employment with a health service body;
- (d) has had his or her membership as chair, member or director of a health service body other than a clinical commissioning group terminated, other than by reason of redundancy, voluntary resignation, reorganisation of the health service body, or expiry of the period of office for which that person was appointed; or
- (e) has been removed from office as the chair or member of the governing body of a clinical commissioning group.

(3) For the purposes of paragraph (2)(a) the date of conviction is deemed to be the date on which the ordinary period allowed for making an appeal or application with respect to the conviction expires or, if such an appeal or application is made, the date on which the appeal or application is finally disposed of or abandoned or fails by reason of its not being prosecuted.

(4) For the purposes of paragraph (2)(c), a person is not to be treated as having been in paid employment by reason only of having held the position of member, associate member or director of a health service body other than a clinical commissioning group, or of having held the position of chair or member of the governing body of a clinical commissioning group.

(5) Where a person is ineligible by reason of paragraph (2)(b)—

- (a) if the bankruptcy is annulled on the ground that the person ought not to have been adjudged bankrupt or on the ground that the person's debts have been paid in full, that person becomes eligible for appointment as a chair or officer member on the date of the annulment;
- (b) if the person is discharged from bankruptcy, that person becomes eligible for appointment as a chair or officer member on the date of the discharge;
- (c) if, having made a composition or arrangement with creditors, the person's debts are paid in full, that person becomes eligible for appointment as a chair or officer member on the date upon which such debts are paid in full; and
- (d) having made a composition or arrangement with creditors, that person becomes eligible for appointment as a chair or officer member on the expiry of five years from the date on which the terms of the deed of composition or arrangement were fulfilled.

(6) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), pan fo person yn anghymwys oherwydd paragraff (2)(c), caiff y person hwnnw, pan ddaw dwy flynedd i ben o ddyddiad y diswyddiad, wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru i ddileu'r anghymhwystra, a chaiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo bod yr anghymhwystra yn dod i ben.

(7) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwrthod cais i ddileu anghymhwystra, ni chaiff y person hwnnw wneud cais pellach cyn pen dwy flynedd gan ddechrau ar ddyddiad y cais ac mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw gais wedyn.

(8) Pan fo person yn anghymwys oherwydd paragraff (2)(d), daw'r person hwnnw yn gymwys i'w benodi'n gadeirydd pan ddaw dwy flynedd i ben o ddyddiad terfynu'r aelodaeth neu unrhyw gyfnod hwy a bennwyd gan y corff a derfynodd yr aelodaeth, ond caiff Gweinidogion Cymru, pan wneir cais iddynt yn ysgrifenedig gan y person hwnnw, leihau cyfnod yr anghymhwystra.

---

© Hawlfraint y Goron 2014

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

(6) Subject to paragraph (7), where a person is ineligible by reason of paragraph (2)(c), that person may, after the expiry of two years from the date of dismissal, apply in writing to the Welsh Ministers to remove the ineligibility, and the Welsh Ministers may direct that the ineligibility ceases.

(7) Where the Welsh Ministers refuse an application to remove an ineligibility, no further application may be made by that person until the expiry of two years beginning with the date of the application and this paragraph applies to any subsequent application.

(8) Where a person is ineligible by reason of paragraph (2)(d), that person becomes eligible for appointment as a chair on the expiry of two years from the date of termination of membership or such longer period as may have been specified by the body which terminated the membership, but the Welsh Ministers may, on application being made in writing to them by that person, reduce the period of ineligibility.

---

© Crown copyright 2014

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2014 Rhif 566 (Cy. 67)**

**2014 No. 566 (W. 67)**

**Y GWASANAETH IECHYD  
GWLADOL, CYMRU**

**THE NATIONAL HEALTH  
SERVICE, WALES**

Rheoliadau'r Pwyllgor  
Gwasanaethau Ambiwylans Brys  
(Cymru) 2014

The Emergency Ambulance  
Services Committee (Wales)  
Regulations 2014

£5.75

W1894/03/14

ON

ISBN 978-0-348-10920-7



9 780348 109207